# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, Richard Owain Jones, Bryan Owen, Alun Roberts, Nicola Roberts.<br><br>**Aelodau Cyfetholedig :**<br><br>Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig).<br><br>**Aelodau Eraill o'r Cyngor Sir**<br><br>Kenneth P Hughes, Dafydd Roberts.<br><br>**Y Pwyllgor Gwaith:**<br><br>Cynghorydd Llinos M Huws (Arweinydd a Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol);<br>Cynghorydd Richard A Dew (Deilydd Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd);<br>Cynghorydd R Meirion Jones (Deilydd Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant);<br>Cynghorydd Alun Mummery (Deilydd Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau);<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Deilydd Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff);<br>Cynghorydd Dafydd R Thomas (Deilydd Portffolio Busnes y Cyngor). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo (BHO),<br>Rheolwr Gwasanaethau Busnes (Economaidd) (CB),<br>Rheolwr Sgriwtini,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Glyn Haynes.<br>Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru).<br><br>Cynghorydd Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg). |

Bu'r Cadeirydd longyfarch y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS ar ei briodas yn ddiweddar.

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

## 2 COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

Cafodd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol eu cyflwyno ac fe'u cadarnhawyd fel cofnod cywir:-

- 8 Hydref, 2018 (cyfarfod arbennig);
- 24 Hydref, 2018 (yn amodol ar gynnwys y ffaith bod y Cynghorydd John Griffith yn bresennol yn y cyfarfod).

## 3 BLAEN RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor adroddiad y Rheolwr Sgriwtini, yn cynnwys Blaenraglen Waith bresennol y Pwyllgor ar gyfer 2017/18 i 2019/20.

**PENDERFYNWYD derbyn y Blaenraglen Waith.**

**GWEITHRED: Dim**

## 4 CYNLLUN YMGYNGHORI AR GYLLIDEB 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn cynnwys cynllun arfaethedig ar gyfer cynnal y broses ymgynghori cyhoeddus ar Gyllideb 2019/20 yn ystod y cyfnod rhwng 12 Tachwedd a 31 Rhagfyr, 2018 at sylw'r Pwyllgor.

Adroddodd Deilydd Portffolio Busnes y Cyngor fod y cam mewnol cychwynnol o'r broses o ymgynghori ar y Gyllideb h.y. gydag Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor, wedi'i gwblhau. Yn ogystal, trafodwyd y cynllun gyda'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori yn ddiweddar a roddodd arweiniad bod angen gwell presenoldeb a thrafodaethau gyda phobl ifanc fel rhan o'r cynllun ymgynghori eleni. Mae'r ail gam er mwyn sicrhau cymaint o fewnbwn ac ymateb gan gynifer o drigolion Ynys Môn a phosibl.

Ystyriodd y Pwyllgor yr Ymgynghoriad ar y Cynigion Ariannol / Cynllun Cyfathrebu a gwnaed y pwyntiau canlynol:-

- Gofynnwyd am gadarnhad o ran y broses mewn perthynas ag ymgysylltu a derbyn sylwadau gan bobl ifanc mewn perthynas â'r Cynllun Ymgynghori ar y Gyllideb. Eglurodd Arweinydd y Cyngor beth oedd y broses ymgynghori ar y gyllideb y llynedd a nododd ei bod wedi mynychu Ysgolion Uwchradd yr Ynys. Dywedodd hefyd y byddai'r un peth yn digwydd eleni ynghyd â sesiwn 'Hawl i Holi' a fyddai'n cael ei threfnu gyda chynrychiolwyr 'Llais Ni' a disgyblion o bob oed i gymryd rhan yn y broses ymgynghori ariannol. Dywedodd hefyd yr ymgysylltwyd â chynrychiolwyr o'r Urdd, Ffermwyr Ifanc Ynys Môn a phobl ifanc digartref fel y gellir trefnu sesiwn iddynt gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar Gynigion Ariannol y Cyngor;
- Cyfeiriwyd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chodwyd cwestiynau a yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei ymgynghori ag ef o ran y broses ymgynghori a'r effaith bosibl y bydd y cynigion am arbedion yn eu cael ar

randdeiliaid y Cyngor. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd partneriaid y Cyngor yn cael eu gwahodd, fel y llynedd, i drafod y cynigion ariannol hyn.

**PENDERFYNWYD cytuno i'r Cynllun Ymgynghori ar y Gyllideb ar gyfer 2019/20 ac i argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid ei fabwysiadu.**

*(Ymataliodd y Cynghorwyr Aled M Jones a Bryan Owen eu pleidlais).*

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

## 5 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."**

## 6 GOSOD CYLLIDEB 2019/20 - CYNIGION CYCHWYNNOL

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer y broses o osod cyllideb 2019/20. Mae'r adroddiad a oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yn nodi'r cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2019/20. Mae'r papur yn darparu datganiad sefyllfa ar y materion canlynol:-

- Cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar y gyllideb
- Setliad Cychwynnol Llywodraeth Leol (Llywodraeth Cymru)
- Y Dreth Gyngor
- Arian wrth gefn a balansau cyffredinol
- Cynigion am arbedion
- Pwysau ar y gyllideb
- Risgiau
- Effaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol

Adroddodd y Deilydd Portffolio Cyllid y bydd gosod cyllideb ar gyfer 2019/20 yn heriol o ganlyniad i'r setliad dros dro ar y gyllideb sydd wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar 9 Hydref 2018, yn cynnwys toriad o 1% yn y gyllideb. Nododd bod y Cyngor, cyn adnabod unrhyw arbedion a chynyddu'r Dreth Gyngor neu bremiwm y Dreth Gyngor, yn wynebu bwlch ariannol o £7.156 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Mae'r gwasanaethau o fewn y Cyngor wedi adnabod arbedion o £3.7 miliwn ac mae Aelodau Etholedig wedi eu hysbysu am fanylion yr arbedion hynny yn ystod Sesiynau Briffio ac mae'r manylion wedi eu cynnwys yn Atodiad 4 yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor. Cyfeiriodd ymhellach at falansau arian wrth gefn y Cyngor a oedd yn £6.9 miliwn ar 31 Mawrth 2018, sef ychydig uwchben yr isafswm angenrheidiol fel yr aseswyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) /Swyddog Adran 151. Fodd bynnag, mae'r rhagamcaniad ar gyfer cyllideb 2018/19 yn darogan gorwariant o £2 filiwn a bydd yn rhaid i hyn gael ei ariannu o'r arian wrth gefn cyffredinol a fydd yn golygu y bydd lefel yr arian wrth gefn cyffredinol yn is nag isafswm y balans sy'n cael ei argymell. Fodd bynnag, yn dilyn y cyhoeddiad ynghylch cyllideb y DU ar 29 Hydref, 2018, dywedodd y disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid ychwanegol (fel rhan o'r fformiwla Barnett i Gymru), ac mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai Llywodraeth Leol sydd ar 'flaen y ciw' i dderbyn unrhyw gyllid ychwanegol sydd ar gael. Dywedodd y Deilydd Portffolio hefyd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ogystal sut i ariannu'r costau'r Pensiwn newydd i Athrawon gan y bydd yn fwrn ariannol ar awdurdodau

lleol. Roedd yn dymuno nodi diwygiad i'r adroddiad sef y byddai'r cynnig ar gyfer y gwasanaeth casglu clytiau yn cael ei ymgynghori arno yn ystod y broses o ymgynghori ar Gyllideb 2019/20.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn nodi nifer o ragdybiaethau ac mae'r rhain wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo'r gyllideb ddigyfnewid ar gyfer 2019/20. Cyfeiriodd at y Gyllideb Ddigyfnewid o ran y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor ar hyn o bryd ac sy'n amlygu'r gofynion ar gyfer cyllid ychwanegol i wasanaethau sydd o dan bwysau ariannol h.y. Gwasanaethau Plant. Dywedodd fod y 'Newidiadau Ymrwymedig' o fewn y gyllideb yn newidiadau sy'n cael eu hystyried wrth lunio'r gyllideb ddigyfnewid a'u bod yn adlewyrchu cynnydd/gostyngiad mewn costau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Tynnwyd sylw at y rhain ym mharagraff 3 yr adroddiad. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth hefyd y byddai unrhyw newid i bremiwm y Dreth Gyngor yn effeithio ar gyllid y Cyngor ac yn newid y bwlch yn y gyllideb. Cyfeiriodd at y premiwm tai gwag ac ail gartrefi a allai fod yn fater i'w drafod yn ystod y broses ymgynghori ar y gyllideb ar gyfer 2019/20.

Dywedodd  y Cynghorydd Dafydd Roberts, ar ran y Panel Sgriwtini Cyllid, fod y panel wedi rhoi ystyriaeth fanwl i rai o'r cynigion drafft cychwynnol ar y gyllideb yn ei gyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2018. Roedd y Panel Sgriwtini Cyllid wedi blaenoriaethu 3 maes gwasanaeth yn benodol h.y. Gwasanaethau Dysgu, Gwasanaethau Oedolion a Phriffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. Roedd crynodeb o drafodaethau'r Panel wedi'u hatodi fel Atodiad 2 yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol:-

- Mynegodd y Pwyllgor bryderon sylweddol am y toriad annerbyniol o 1% yn y setliad ariannol ar gyfer 2019/20. Nodwyd fod CLILC yn ymgyrchu er mwyn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol yn y setliad llywodraeth leol terfynol. Codwyd cwestiynau am y fformiwla a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru o ran y setliad ar gyfer llywodraeth leol. Ymatebodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod Llywodraeth Cymru wedi adolygu eu fformiwla setliad llywodraeth leol ar gyfer 2017/18 a 2018/19 a oedd wedi golygu arian ychwanegol ar gyfer awdurdodau gwledig. Fodd bynnag, mae'r fformiwla cyllido yn ymddangos ei fod yn ffafrio ardaloedd dinesig De Cymru sydd wedi gweld gostyngiad llai o ganlyniad i gynnydd ym mhoblogaethau'r ardaloedd dinesig hynny. Nid yw dadansoddiad o'r Asesiad Gwariant Safonol yn adnabod un rheswm penodol pan fod Ynys Môn wedi dioddef yn setliad eleni o gymharu â blynyddoedd eraill. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Grŵp Arweinwyr Awdurdodau Lleol Cymru wedi gofyn am gyfarfod â'r Aelod Cabinet Cyllid, Mr Mark Drakeford AC er mwyn trafod y setliad llywodraeth leol ond hyd yma nid oedd y cyfarfod hwnnw wedi'i gynnal. Nodwyd fod CLILC yn ymgyrchu er mwyn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol yn y setliad llywodraeth leol terfynol.
  **Ym marn y Pwyllgor, roedd angen anfon ymateb yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn mynegi eu pryderon am y setliad cychwynnol ac i bwyso am gyllid ychwanegol yn y setliad terfynol.**

- Roedd y Pwyllgor yn ystyried bod angen codi'r premiwm 2ail Gartrefi / Tai Gwag fel dull ar gyfer cau'r bwlch yn y gyllideb.

- Gofynnwyd am gadarnhad am y fformiwla ddyrannu a ddefnyddiwyd o ran cyllid y pen ar gyfer disgyblion a'r fethodoleg ar gyfer trosglwyddo'r cyllid hwnnw pan fydd disgybl yn trosglwyddo i ysgol arall. Ymatebodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod cyllid ysgolion yn cael ei rannu drwy fformiwla sy'n ystyried nifer y disgyblion mewn ysgol. Bydd y fformiwla yn dyrannu mwy ar gyfer pob disgybl mewn

ysgolion llai er mwyn sicrhau'r isafswm o ran lefel staffio a bod costau'r adeilad yn cael eu hariannu ac o ganlyniad eu bod yn dod yn gyfran uwch o gyfanswm y gyllideb ar gyfer ysgolion llai.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith:-**

- **Y dylid cyflwyno ymateb ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn mynegi eu siom â'r setliad cychwynnol ac i bwyso am gyllid ychwanegol yn y setliad terfynol yn y man;**
- **I dderbyn y gyllideb ddigyfnewid a pheidio â gofyn i wasanaethau ddod o hyd i fwy o arbedion ac i beidio â defnyddio arian wrth gefn y Cyngor er mwyn cau'r bwlch ariannol;**
- **Bod angen rhoi ystyriaeth i gynyddu'r premiwm ar Ail Gartrefi / Tai Gwag.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

*(Ymataliodd Mr Keith Roberts, Aelod Cyfetholedig, ei bleidlais).*

**Y CYNGHORYDD ALED M JONES**
**CADEIRYDD**